# Cymuned yw'r man cychwyn

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – Proffil Rôl






## Swyddog Ariannu

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth:** | England/NI/Scotland/Wales |
| **Adran:** | Amrywiol |
| **Lefel rôl/Cymhwysedd:** | Lefel 2 |
| **Yn adrodd i:** | Rheolwr Ariannu/Pennaeth Ariannu |



# Proffil Rôl: Swyddog Ariannu

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

## Pwrpas y Rôl

Fel swyddog ariannu byddwch yn asesu ceisiadau am ariannu gan ddefnyddio gwybodaeth leol, ymarfer gorau, arbenigedd thematig, a phrofiad cwsmeriaid a rhanddeiliaid i wella ein dyfarniadau grantiau ac fel sail i wneud penderfyniadau. Trwy weithio'n agos gyda phobl a chymunedau mewn ardal ddaearyddol wedi'i diffinio, byddwch yn deall beth sydd o bwys iddyn nhw a ble y gall ein hariannu wneud y mwyaf o wahaniaeth.

Yn gyfrifol am gefnogi pobl a chymunedau lleol, bydd gennych ddealltwriaeth gadarn o'n gweledigaeth a'n cynhyrchion ariannu, gan addasu eich dull i ddymuniadau'r bobl rydych yn gweithio gyda nhw. Bydd angen i chi hefyd gefnogi eich rhanddeiliaid, gan eu helpu i wneud cysylltiadau a fydd yn eu helpu i gyflawni eu nodau.

Yn gyfrifol am brosiectau ar y gweill, bydd angen i chi ddeall ac ymateb i anghenion gwahanol eich cwsmeriaid trwy roi cyngor ac adborth ystyriol a bod yn fodlon cael sgyrsiau heriol ond adeiladol. Bydd Swyddogion Ariannu yn sicrhau bod ein rheoli ac asesu grantiau yn chwarae rhan effeithiol wrth gyfrannu i wybodaeth a dysgu'r Gronfa fel dyfarnwyr grantiau. Byddwch yn rheoli eich llwyth achos eich hun, yn cysylltu â deiliaid grantiau, yn mynd ar ymweliadau prosiect, adnabod a rheoli risg, a chefnogi sefydliadau i gyflawni eu prosiectau a mesur eu heffaith.



## **Proffil Rôl:** Swyddog Ariannu

## Cyfrifoldebau allweddol

- Asesu ceisiadau am ariannu
- Rheoli grantiau
- Rheoli llwyth achosion
- Cefnogi sefydliadau i gyflawni eu prosiectau a mesur eu heffaith
- Cysylltu â deiliaid grantiau a mynd ar ymweliadau prosiect
- Ymateb i ymholiadau ariannu
- Adnabod a rheoli risg









CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Proffil Rôl: Swyddog Ariannu

## Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad

- Dealltwriaeth o'n gwaith a chwilfrydedd am ein gwaith
- Dealltwriaeth o wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid
- Gwybodaeth am y cyd-destun ariannu ehangach
- Dealltwriaeth o gynllunio ariannol a chynlluniau busnes, y gallu i ddadansoddi cyfrifon a data rhifyddol, ac adnabod a rheoli risg
- Dealltwriaeth o ddulliau seiliedig ar gryfder o weithio gyda phobl a chymunedau i oresgyn heriau
- Gwybodaeth am yr amgylchedd polisi cymdeithasol a rôl y drydydd sector
- Yn hyderus wrth gyflwyno i gynulleidfaoedd allanol
- Y gallu i ddysgu gan y prosiectau a ariannwn a rhannu'r dysgu hwnnw er budd y sefydliad ehangach
- Os yw'r rôl wedi'i lleoli yng Nghymru, neu'n cefnogi cwsmeriaid neu gydweithwyr yng Nghymru, mae angen dealltwriaeth o ddeddfwriaeth y Gymraeg a Safonau Iaith Gymraeg y Gronfa (neu gydag angerdd i ddod â'ch sgiliau a'ch gwybodaeth i'r maes hwn)










## Cymwyseddau rôl: Lefel 2

- **Cyfeiriad strategol**
  Deall blaenoriaethau strategol a cheisio alinio camau gweithredu eich hun ag amcanion y tîm, y gyfarwyddiaeth a'r sefydliad.
- **Arwain ein diwylliant**
  Cyfrannu at amgylchedd gwaith cynhwysol lle mae pob barn a her yn cael eu gwrando arnynt, ac mae'r holl anghenion unigol gan gynnwys lles eich hun yn cael eu hystyried.
- **Cydweithio**
  Ystyried y tîm yn ogystal â llwyddiant unigol ac addasu dull ac arferion gweithio i gyflawni canlyniadau.
- **Cyflawni canlyniadau o ansawdd uchel**
  Gwybod beth sy'n ddisgwyliedig a gwirio perfformiad yn erbyn amcanion yn rheolaidd, gan wneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau neu ddefnyddio camau gweithredu cywirol lle bo angen.
- **Diwydrwydd a rheolaeth**
  Dilyn polisïau, gweithdrefnau a rheoliadau perthnasol a gweithredu i atal problemau drwy adnabod ac adrodd problemau a chyfrannu at ddatrysiadau.
- **Datblygu eich hun ac eraill**
  Cymryd perchnogaeth dros ddatblygiad eich hun, gan gwblhau a chynnal Cynllun Datblygu Personol. Gofyn am gyfleoedd dysgu ac adborth.

## Ein gwerthoedd

### Rydym yn gynhwysol

Gwyddom fod cymunedau a sefydliadau yn gryfach pan fydd pawb yn gallu cymryd rhan a gweithio i gynyddu cynhwysiant.

### Rydym yn uchelgeisiol

Rydym yn credu yng ngrym cymuned a chysylltiadau ac yn uchelgeisiol ar gyfer ei botensial. Rydym yn cefnogi pobl a chymunedau i lywio'r dyfodol ac arwain newid.

### Rydym yn canolbwyntio ar effaith

Rydym yn cael ein hysbrydoli gan gymunedau ac yn dysgu gyda nhw. Rydym yn gwrando, yn myfyrio ac yn defnyddio tystiolaeth i wella gwybodaeth, hysbysu camau gweithredu a chynyddu effaith.

### Rydym yn hyblyg

Rydym yn croesawu ac yn cofleidio syniadau a ffyrdd newydd o weithio.

### Rydym yn dosturiol

Rydym yn gweithio gyda gofal, ystyriaeth a gostyngeiddrwydd.